Cynllun Plant a Phobl Ifanc Conwy 2008-2011

Ein gwaith hyd yn hyn!

Mae gan bob sir yng Nghymru **gynllun** ar sut i gydweithio i wella bywydau plant a phobl ifanc.

Datblygwyd cynllun yng Nghonwy'r llynedd. Mae'r ddogfen yma'n rhoi'r **wybodaeth ddiweddaraf** ar yr hyn rydym yn ei wneud er mwyn gwneud y cynllun yn realiti.

Cynllun pwy yw hwn? Mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy yn cynnwys yr holl grwpiau a gwasanaethau sy'n rhan o fywydau plant a phobl ifanc yng Nghonwy. Ond eich cynllun **chi** - plant a phobl ifanc Conwy - yw hwn hefyd ac mae'n cael effaith ar eich bywydau a'r hyn sydd ar gael i chi.

Ein Gweledigaeth

i blant a phobl ifanc yng Nghonwy

"Gyda'n gilydd ein nod yw gwneud yn siŵr bod holl blant a phobl ifanc Conwy yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i fod yn hapus, iach, diogel, a chael eu gwerthfawrogi a'u parchu, cael pobl i wrando arnynt a'r cyfleoedd a'r cymorth i ennill y sgiliau a'r hyder i wneud y dewisiadau cywir rŵan ac yn y dyfodol."

Newidiadau i'r cynllun

Mae'r cynllun yn cynnwys nifer fawr o bethau rydym yn gweithio arnynt yng Nghonwy. Gelwir y rhain yn 'feysydd blaenoriaeth' ac maent wedi'u rhestru dan **7 Prif Amcan**.

Ers ysgrifennu'r cynllun, rydym wedi rhoi mwy o flaenoriaeth i rai pethau nac yn y cynllun gwreiddiol.

Y pethau hyn yw:

- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith nac hyfforddiant;
- Iechyd rhywiol;
- Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth (sy'n anabledd penodol);
- Gwneud yn siŵr fod pawb (beth bynnag fo'u sefyllfa) yn cael mynediad i chwarae a hamdden;
- Lleihau damweiniau ac anafiadau ymysg plant a phobl ifanc;
- Atal bwlio;
- Cydraddoldeb.

Gwaith hyd yn hyn...

Rydym wedi **cyflawni** nifer o bethau dros y flwyddyn ddiwethaf. Dyma restr o'r uchafbwyntiau:

☺ Cawsom adroddiad archwilio da gan **Estyn**;

☺ Rydym wedi sefydlu Cyngor Ieuenctid yng Nghonwy a dulliau eraill i alluogi plant a phobl ifanc **ddweud eu dweud;**

☺ Rydym wedi sefydlu grŵp yn cynnwys sawl gwahanol asiantaeth i ystyried lleihau **damweiniau ac anafiadau;**

Gwaith hyd yn hyn...

- Rydym wedi gweithio i wella'r ffyrdd y gall plant a phobl ifanc dderbyn **gwybodaeth** yng Nghonwy;
- Rydym wedi edrych sut i wella cyfleoedd i blant a phobl ifanc yng Nghonwy gael eu **hachredu**, ac rydym wedi penodi swyddog newydd i arwain ar hyn;
- Rydym wedi edrych i weld os oes gwasanaethau ar gael i blant a phobl ifanc yn y **Gymraeg** a sut y gallwn wella hyn;
- Rydym yn edrych sut y gallwn roi mwy o gefnogaeth i rieni a gwella **sgiliau rhiantu;**
- Rydym yn edrych eto ar ein dull o weithio efo pobl ifanc **nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant;**

- Rydym wedi cysylltu â, a siarad gyda, nifer o bobl am ein prosiect **moderneiddio ysgolion**;
- Rydym wedi datblygu grŵp tasg i edrych ar **atal bwlio** sy'n cynnwys pobl ifanc;
- Rydym wedi dechrau edrych ar **dlodi** yng Nghonwy a'i effaith ar blant a phobl ifanc;
- Rydym wedi penodi swyddog newydd i ddatblygu cyfleoedd **Chwarae** i blant a phobl ifanc;

- Rydym wedi dod â phobl at ei gilydd o feysydd gwaith ieuenctid, hamdden a'r gwasanaethau cymdeithasol i wella **gweithgareddau i blant gydag anableddau;**
- Rydym wedi bod yn gweithio i wella'r ffordd rydym yn **rheoli** gwaith y Bartneriaeth a'r wybodaeth sydd gennym.

Rhai materion lle mae angen rhagor o waith:

- Nid ydym wedi cyflawni'r targedau o ran cyfarfod â phlant a phobl ifanc sydd angen gwasanaethau **iechyd meddwl** (oherwydd problemau staffio);
- Gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i gael eu **hachredu** am y gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddynt;
- Gwneud yn siŵr ein bod yn parhau â'r gwaith rydym wedi'i ddechrau ar **dlodi plant;**

- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cydweithio i gefnogi **gofalwyr ifanc** (mae nifer uwch na'r cyfartaledd o ofalwyr ifanc yng Nghonwy);
- Darparu **hyfforddiant** i bobl sy'n delio â theuluoedd heriol;

- Symud ymlaen yn sydyn i gydweithio ar gyfer **plant gydag anableddau.**